**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

22 Chwefror 2021

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Rhestrau Gwledydd Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) 2021**

Mae'r Offeryn Statudol a enwir uchod yn diwygio sawl darn o gyfraith yr UE a ddargedwir, gan ddefnyddio pwerau yn Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Milfeddygon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/1225). Mae'n cywiro diffygion sy'n bresennol yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd ac a ddargedwid drwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r diwygiadau'n gwneud darpariaeth fel y gall Gwlad yr Iâ allforio cynhyrchion anifeiliaid i Brydain Fawr er mwyn sicrhau y gall masnach o Wlad yr Iâ barhau heb fawr o darfu o 1 Ebrill 2021 pan fydd angen Tystysgrifau Iechyd Allforio (EHCs) ar gyfer Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (POAO). Os nad yw Gwlad yr Iâ wedi'i rhestru fel gwlad sydd wedi'i chymeradwyo i allforio POAO erbyn 1 Ebrill, mae'n debygol y bydd tarfu ar fasnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth o Wlad yr Iâ. Bydd deddfwriaeth mewnforio'r Undeb Ewropeaidd yn parhau'n berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn Statudol hwn mewn perthynas â Chymru. Rwy'n deall y bydd yr Offeryn Statudol yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 3 Mawrth ac y bydd yn dod i rym ar 28 Mawrth. Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fydd yn ofynnol i ni ystyried a chywiro swm digynsail o ddeddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan mewn nifer fawr o offerynnau statudol. Pe bai cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl, bydd angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Nid oes digon o amser ac adnoddau i allu drafftio a gosod rheoliadau o'r fath i ddod i rym cyn diwedd 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs